 - (a) manylion pob adeilad yn ardal yr awdurdod sydd wedi ei gynnwys mewn rhestr a lunnir neu a gymeradwyir o dan adran 1 o [Ddeddf Cynllunio \(Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth\) 1990 \(p.9\)](#),
 - (b) manylion pob ardal cadwraeth yn ardal yr awdurdod sydd wedi ei dynodi o dan adran 69 o'r Ddeddf honno,
 - (c) manylion pob heneb yn ardal yr awdurdod sydd wedi ei chynnwys yn y Gofrestr a lunnir ac a gynhelir o dan adran 1 o [Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 \(p.46\)](#),
 - (d) manylion pob un o'r tiroedd yn ardal yr awdurdod sydd wedi eu cynnwys yn y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol a lunnir ac a gynhelir o dan adran 41A o'r Ddeddf honno,
 - (e) manylion pob safle gwrthdaro yn ardal yr awdurdod sydd o ddiddordeb hanesyddol ym marn Gweinidogion Cymru,
 - (f) pan fo awdurdod cyhoeddus (pa un ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phersonau eraill) yn cynnal rhestr o dirweddau hanesyddol yng Nghymru, fanylion pob tirwedd hanesyddol yn ardal yr awdurdod lleol sydd wedi ei chynnwys yn y rhestr,
 - (g) manylion pob safle treftadaeth y byd yn ardal yr awdurdod,
 - (h) manylion pob ardal neu safle arall neu fan arall yn ardal yr awdurdod sydd o ddiddordeb hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol lleol ym marn yr awdurdod neu Weinidogion Cymru,
 - (i) gwybodaeth am y ffordd y mae datblygiad hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol ardal yr awdurdod, neu unrhyw ran ohoni, wedi cyfrannu at gymeriad presennol yr ardal neu'r rhan a sut y gellir diogelu'r cymeriad hwnnw,
 - (j) manylion ymchwiliadau perthnasol a gynhelir yn ardal yr awdurdod a manylion canfyddiadau'r ymchwiliadau hynny, a
 - (k) dull o gael mynediad i fanylion pob enw lle hanesyddol yn ardal yr awdurdod sydd wedi ei gynnwys yn y rhestr a lunnir ac a gynhelir o dan adran 34.
- (3) Yn is-adran (2)(e), ystyr "safle gwrthdaro" yw—
 - (a) maes brwydr neu safle lle y digwyddodd rhyw wrthdaro arall a oedd yn cynnwys lluoedd arfog, neu
 - (b) safle lle y digwyddodd gweithgareddau sylweddol a oedd yn ymwneud â brwydr neu unrhyw wrthdaro arall a grybwyllir ym mharagraff (a).
- (4) Yn is-adran (2)(f), ystyr "awdurdod cyhoeddus" yw person y mae rhai o'i swyddogaethau yn swyddogaethau o natur gyhoeddus.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/05/2017. Mae'r fersiwn hon o'r hwn

(hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 20 Awst 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (5) Yn is-adran (2)(g), ystyr “safle treftadaeth y byd” yw safle neu fan arall neu beth arall sy'n dreftadaeth ddiwylliannol neu'n dreftadaeth naturiol o fewn yr ystyr a roddir i “cultural heritage” a “natural heritage” yng Nghonfensiwn Treftadaeth y Byd ac sydd wedi ei gynnwys yn Rhestr Treftadaeth y Byd a grybwyllir yn Erthygl 11 o'r Confensiwn hwnnw.
- (6) Yn is-adran (5), ystyr “Confensiwn Treftadaeth y Byd” yw'r Confensiwn ynghylch Diogelu Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd a fabwysiadwyd gan Gynhadledd Gyffredinol Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig ym Mharis ar 16 Tachwedd 1972.
- (7) Yn is-adran (2)(h), mae'r cyfeiriad at ardal awdurdod lleol yn cynnwys, yn achos awdurdod y mae ei ardal yn cynnwys rhan o lan y môr, gyfeiriad at unrhyw ran o'r môr tiriogaethol sy'n gorwedd tua'r môr o'r rhan honno o'r lan ac sy'n rhan o Gymru (o fewn yr ystyr a roddir i “Wales” gan [Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 \(p.32\)](#)).
- (8) Yn is-adran (2)(j), ystyr “ymchwiliad perthnasol”, mewn perthynas ag ardal awdurdod lleol, yw—
 - (a) ymchwiliad gan yr awdurdod neu Weinidogion Cymru at ddiben cael gwybodaeth o ddiddordeb hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol sy'n ymwneud â'r ardal, a
 - (b) unrhyw ymchwiliad arall at y diben hwnnw y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ei gynnwys yn y cofnod.
- (9) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio'r adran hon er mwyn amrywio ystyr “cofnod amgylchedd hanesyddol”.
- (10) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (9), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori—
 - (a) â phob awdurdod lleol yng Nghymru, a
 - (b) ag unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.
- (11) At ddibenion yr adran hon, mae ardal neu safle neu fan arall neu beth arall i'w ystyried fel pe bai mewn ardal awdurdod lleol os yw unrhyw ran o'r ardal, y safle, y man arall neu'r peth arall yn yr ardal.
- (12) Yn yr adran hon ac yn adran 37, ystyr “awdurdod lleol” yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.

Gwybodaeth Cychwyn

I37 A. 35 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 41\(3\)](#)

36 Mynediad i gofnodion amgylchedd hanesyddol

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru—
 - (a) rhoi pob cofnod amgylchedd hanesyddol ar gael er mwyn i'r cyhoedd edrych arno mewn unrhyw fodd sy'n briodol yn eu barn hwy;
 - (b) pan fo person yn gofyn am gopi o ran o gofnod amgylchedd hanesyddol neu fanylion y ceir mynediad iddynt drwy gofnod o'r fath, ac y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod y cais yn rhesymol, ddarparu copi o'r rhan honno o'r cofnod neu'r manylion hynny i'r person;

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/05/2017. Mae'r fersiwn hon o'r hwn
(hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau
y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 20 Awst 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae
newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

- (c) rhoi ar gael i berson sy'n dymuno edrych ar gofnod amgylchedd hanesyddol gyngor ar adalw a deall yr wybodaeth sydd wedi ei darparu yn y cofnod neu y ceir mynediad iddi drwy'r cofnod neu gynhorthwy i wneud hynny;
 - (d) pan fo person yn gofyn i wybodaeth sydd wedi ei darparu mewn cofnod amgylchedd hanesyddol neu y ceir mynediad iddi drwy gofnod o'r fath gael ei hadalw ac y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod y cais yn rhesymol, lunio dogfen sy'n cynnwys yr wybodaeth i'r person.
- (2) Wrth asesu at ddibenion is-adran (1)(b) neu (d) a yw cais yn rhesymol, mae'r materion y caiff Gweinidogion Cymru eu hystyried yn cynnwys unrhyw geisiadau blaenorol o'r fath a wnaed gan y person o dan sylw neu ar ei ran.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru godi ffi am—
- (a) darparu copi neu fanylion o dan is-adran (1)(b);
 - (b) darparu cyngor neu gynhorthwy o dan is-adran (1)(c);
 - (c) llunio dogfen o dan is-adran (1)(d).
- (4) Rhaid i ffi a godir o dan is-adran (3) gael ei chyfrifo drwy gyfeirio at y gost o ddarparu'r gwasanaeth y mae'r ffi yn ymwneud ag ef.

Gwybodaeth Cychwyn

I38 A. 36 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 41(3)**

37 Canllawiau

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r cyrff a restrir yn is-adran (2) ar—
- (a) y modd y caiff y cyrff gyfrannu at lunio cofnodion amgylchedd hanesyddol a chynorthwyo i'w cadw'n gyfredol, a
 - (b) y defnydd o gofnodion amgylchedd hanesyddol wrth arfer swyddogaethau'r cyrff.
- (2) Y cyrff yw—
- (a) awdurdodau lleol yng Nghymru;
 - (b) awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru;
 - (c) Cyfoeth Naturiol Cymru.
- (3) Rhaid i'r cyrff a restrir yn is-adran (2) roi sylw i ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon.
- (4) Cyn dyroddi canllawiau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori—
- (a) â'r cyrff a restrir yn is-adran (2), a
 - (b) ag unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.
- (5) Rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/05/2017. Mae'r fersiwn hon o'r hwn

(hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 20 Awst 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Gwybodaeth Cychwyn

I39 A. 37 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 41(3)**

PROSPECTIVE

Y Panel Cyngori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru

38 Sefydlu Panel a rhaglen waith

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu panel o bersonau, a elwir y Panel Cyngori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru (“y Panel”).
- (2) Diben y Panel yw rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud â llunio, datblygu a gweithredu polisi a strategaeth mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru; ac at y diben hwn mae i “Cymru” yr un ystyr â “Wales” yn [Neddf Llywodraeth Cymru 2006 \(p.32\)](#) (gweler adran 158(1) o'r Ddeddf honno).
- (3) Rhaid i'r Panel, cyn pob blwyddyn ariannol berthnasol, gyhoeddi dogfen (y “rhaglen waith”) sy'n nodi'r materion y mae'n bwriadu rhoi cyngor i Weinidogion Cymru arnynt yn ystod cyfnod o dair blynedd, sef y flwyddyn ariannol honno a'r ddwy flwyddyn ariannol ddilynol.
- (4) Ystyr “blwyddyn ariannol” yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben â 31 Mawrth; ac ystyr “blwyddyn ariannol berthnasol” yw—
 - (a) y flwyddyn ariannol gyntaf i ddechrau ar ôl cychwyn is-adran (3), a
 - (b) pob trydedd flwyddyn ariannol ar ôl hynny.
- (5) Rhaid i'r Panel gadw'r rhaglen waith o dan adolygiad a chaiff ei diwygio yn sgil gwneud hynny; a phan fo'r Panel yn diwygio'r rhaglen waith, rhaid iddo ei chyhoeddi fel y'i diwygiwyd.
- (6) Cyn cyhoeddi'r rhaglen waith o dan is-adran (3) neu (5), rhaid i'r Panel gyflwyno drafft ohoni i Weinidogion Cymru; ond nid yw'r gofyniad i gyflwyno drafft sydd wedi ei ddiwygio o dan is-adran (5) ond yn gymwys i'r graddau y mae'r Panel yn ystyried bod y diwygiadau yn sylweddol.
- (7) Caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl cael drafft o dan is-adran (6), gymeradwyo'r drafft gydag addasiadau neu hebddynt.
- (8) Rhaid i'r Panel, ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, gyhoeddi dogfen sy'n nodi'r materion yn y rhaglen waith y mae wedi rhoi cyngor i Weinidogion Cymru arnynt yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

Gwybodaeth Cychwyn

I40 A. 38 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 41(3)**

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/05/2017. Mae'r fersiwn hon o'r hwn
(hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau
y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 20 Awst 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae
newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

39 Cyfansoddiad etc

- (1) Mae aelodau'r Panel Cyngori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru i'w penodi ar unrhyw delerau ac amodau y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt.
- (2) Ni chaniateir i aelodaeth y Panel fod yn fwy na 15 o bersonau.
- (3) Nid yw'r Panel i'w ystyried yn was nac yn asiant i'r Goron nac ychwaith i'w ystyried yn un sy'n mwynhau unrhyw statws, imiwnedd na braint sydd gan y Goron.
- (4) Nid yw swydd wag ymhlith aelodau'r Panel yn effeithio ar ddilysrwydd gweithred ganddo.
- (5) Caiff Gweinidogion Cymru dalu i aelod o'r Panel unrhyw ffioedd, lwfansau neu dreuliau y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt.
- (6) Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu unrhyw staff, llety neu gyfleusterau eraill sy'n angenrheidiol ym marn Gweinidogion Cymru er mwyn galluogi'r Panel i gyflawni ei swyddogaethau.
- (7) Mae person wedi ei anghymhwysu rhag bod yn aelod o'r Panel os yw'r person—
 - (a) yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru,
 - (b) yn aelod o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi,
 - (c) yn aelod o Senedd yr Alban,
 - (d) yn aelod o Gynulliad Gogledd Iwerddon,
 - (e) yn aelod o Senedd Ewrop,
 - (f) yn aelod o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru,
 - (g) yn aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru, neu
 - (h) yn aelod o staff sefydliad a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.
- (8) Yn unol â hynny, ni chaniateir i berson sydd wedi ei anghymhwysu gael ei benodi'n aelod o'r Panel; ac mae person a benodir felly ac sy'n cael ei anghymhwysu yn peidio â bod yn aelod.
- (9) Caiff Gweinidogion Cymru ddiswyddo aelod o'r Panel os ydynt wedi eu bodloni—
 - (a) bod yr aelod yn anaddas i barhau fel aelod,
 - (b) nad yw'r aelod yn gallu neu'n fodlon gweithredu fel aelod, neu
 - (c) bod yr aelod wedi dwyn anfri ar y Panel.
- (10) Caiff aelod o'r Panel ymddiswyddo drwy roi dim llai na thri mis o rybudd ysgrifenedig i Weinidogion Cymru.

Gwybodaeth Cychwyn

I41 A. 39 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 41\(3\)](#)

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/05/2017. Mae'r fersiwn hon o'r hwn

(hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 20 Awst 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

RHAN 5

CYFFREDINOL

40 Rheoliadau a gorchmynion

- (1) Yn adran 60 o [Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 \(p.46\)](#) (rheoliadau a gorchmynion: darpariaethau cyffredinol), ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

“(1A) Any power of the Welsh Ministers to make regulations or an order under this Act includes power to make such incidental, supplemental, consequential, transitory, transitional or saving provision as the Welsh Ministers consider appropriate.”

- (2) Ar ôl is-adran (2) o'r adran honno mewnosoder—

“(3) Any power of the Welsh Ministers to make regulations under this Act or an order under section 3, 37 or 61 is exercisable by statutory instrument.

- (4) A statutory instrument containing—

- (a) regulations under section 1AA or 9ZB; or
- (b) regulations which, by virtue of subsection (1A), amend or repeal any provision of an Act of Parliament or an Act or Measure of the National Assembly for Wales,

may not be made by the Welsh Ministers unless a draft of the instrument has been laid before, and approved by a resolution of, the National Assembly for Wales.

- (5) Any other statutory instrument containing regulations or an order made by the Welsh Ministers under this Act, other than regulations under section 19, is subject to annulment in pursuance of a resolution of the National Assembly for Wales.”

- (3) Yn adran 93 o [Ddeddf Cynllunio \(Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth\) 1990 \(p.9\)](#) (rheoliadau a gorchmynion: darpariaethau cyffredinol), yn is-adran (1), ar ôl “regulations under this Act” mewnosoder “in relation to England and the Welsh Ministers may make regulations under this Act in relation to Wales”.

- (4) Yn is-adran (3) o'r adran honno—

- (a) ar ôl “regulations made under this Act” mewnosoder “, other than regulations under section 2A, 26M or 56A,” a
- (b) ar ôl “either House of Parliament” mewnosoder “(in the case of regulations made by the Secretary of State) or the National Assembly for Wales (in the case of regulations made by the Welsh Ministers)”.

- (5) Ar ôl is-adran (3) o'r adran honno mewnosoder—

“(3A) A statutory instrument containing regulations under section 2A, 26M or 56A may not be made by the Welsh Ministers unless a draft of the instrument has been laid before, and approved by a resolution of, the National Assembly for Wales.”

- (6) Yn is-adran (4) o'r adran honno, ar ôl “sections 8(5), 26C,” insert “55(5B),”.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/05/2017. Mae'r fersiwn hon o'r hwn
(hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau
y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 20 Awst 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae
newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (7) Yn is-adran (5) o'r adran honno—
- ar ôl “an order under section” mewnosoder “55(5B),” a
 - ar ôl “either House of Parliament” mewnosoder “(in the case of an order made by the Secretary of State) or the National Assembly for Wales (in the case of an order made by the Welsh Ministers)”.
- (8) Yn is-adran (6) o'r adran honno, ar ôl “the Secretary of State” mewnosoder “or (as the case may be) the Welsh Ministers”.
- (9) Yn adran 21 o'r Ddeddf honno (apelau: darpariaeth atodol), hepgorer is-adrannau (10) ac (11).
- (10) Yn Atodlen 3 i'r Ddeddf honno (penderfynu ar apelau penodol gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru), ym mharagraff 8, hepgorer is-baragraff (6).
- (11) Rhaid i reoliadau o dan y Ddeddf hon gael eu gwneud drwy offeryn statudol.
- (12) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys—
- rheoliadau o dan adran 35(9) (pŵer i amrywio ystyr “cofnod amgylchedd hanesyddol”), neu
 - rheoliadau o dan adran 39(7)(h) (Y Panel Cyngori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru: anghymhwys staff sefydliadau penodedig rhag bod yn aelodau),
- gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

Gwybodaeth Cychwyn

I42 A. 40 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 41(1)(f)**

41 Dod i rym

- (1) Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf hon i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol—
- Rhan 1;
 - adran 2;
 - adrannau 3, 5 ac 11 ac Atodlen 1, i'r graddau y maent yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau o dan [Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 \(p.46\)](#);
 - adran 23;
 - adrannau 24 ac 28 ac Atodlen 2, i'r graddau y maent yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau o dan [Ddeddf Cynllunio \(Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth\) 1990 \(p.9\)](#);
 - y Rhan hon.
- (2) Daw adrannau 6 i 9, 12 i 17, 19 i 22, 27, 29, 30(1) i (5), 32 a 33 i rym ar ddiwedd y cyfnod o 2 fis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.
- (3) Daw darpariaethau eraill y Ddeddf hon i rym, a daw adrannau 3, 5, 11, 24 ac 28 ac Atodlenni 1 a 2 i rym at y dibenion sy'n weddill, ar unrhyw ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/05/2017. Mae'r fersiwn hon o'r hwn

(hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 20 Awst 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (4) Caiff gorchymyn o dan is-adran (3)—
- (a) pennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol;
 - (b) gwneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â dyfodiad darpariaeth yn y Ddeddf hon i rym.
- (5) Rhaid i orchymyn o dan is-adran (3) gael ei wneud drwy offeryn statudol.

Gwybodaeth Cychwyn

I43 A. 41 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 41(1)(f)**

42 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

Gwybodaeth Cychwyn

I44 A. 42 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 41(1)(f)**

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/05/2017. Mae'r fersiwn hon o'r hwn
(hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.
Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau
y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 20 Awst 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae
newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

ATODLEN 1

(a gyflwynir gan adran 3)

ATODLENNI A1 AC A2 I'W MEWNOSOD YN NEDDF HENEBION HYNAFOL AC ARDALOEDD ARCHAEOLEGOL 1979

Gwybodaeth Cychwyn

I45 Atod. 1 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol at ddibenion penodedig, gweler **a. 41(1)(c)**

“SCHEDULE A1

(introduced by section 1AC)

LAPSE OF INTERIM PROTECTION

- 1 This Schedule applies where interim protection ceases to have effect in relation to a monument as a result of the issue of a notice under section 1AB(4)(b) or (5)(b).
- 2 The fact that the interim protection has ceased to have effect does not affect the liability of any person to be prosecuted and punished for an offence under section 2, 9ZG, 9ZK, 28 or 42 committed with respect to the monument while the interim protection had effect.
- 3 Any proceedings on or arising out of an application for scheduled monument consent with respect to the monument lapse, in so far as they relate to consent required by virtue of the interim protection; and any such consent granted lapses to the same extent.
- 4
 - (1) Any scheduled monument enforcement notice served by the Welsh Ministers with respect to the monument ceases to have effect, in so far as the notice relates to works affecting anything in respect of which the interim protection had effect.
 - (2) Any proceedings on or arising out of such a notice under section 9ZE or 9ZF(4) lapse, in so far as the notice relates to works affecting anything in respect of which the interim protection had effect.
 - (3) Notwithstanding sub-paragraph (1), section 9ZF(2) continues to have effect as respects any expenses incurred by a person authorised by the Welsh Ministers as mentioned in section 9ZF(1), and with respect to any sums paid on account of such expenses.
- 5 Any temporary stop notice served by the Welsh Ministers with respect to the monument ceases to have effect, in so far as the notice relates to works affecting anything in respect of which the interim protection had effect.
- 6 Any proceedings on an application made by the Welsh Ministers under section 9ZM with respect to the monument lapse, in so far as they relate to the restraint of any actual or apprehended contravention in relation to anything in respect of which the interim protection had effect.

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/05/2017. Mae'r fersiwn hon o'r hwn
(hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.
Newidiadau i ddeddfwriaeth: *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau
y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 20 Awst 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae
newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)**

SCHEDULE A2

(introduced by section 1AE)

DECISIONS ON REVIEWS BY PERSON APPOINTED BY WELSH MINISTERS

Decisions on reviews by appointed persons

- 1 (1) The Welsh Ministers may by regulations prescribe the classes of reviews under section 1AE on which a decision is to be made by a person appointed by the Welsh Ministers for the purpose instead of by the Welsh Ministers.
- (2) Decisions on reviews of a prescribed class are to be made accordingly.
- (3) This paragraph does not affect any provision in this Act or any instrument made under it that an application for a review is to be made to the Welsh Ministers.
- (4) A person appointed under this paragraph is referred to in this Schedule as “an appointed person”.

Powers and duties of appointed person

- 2 (1) An appointed person has the same powers and duties in relation to a review under section 1AE as the Welsh Ministers have under—
 - (a) subsections (3)(a) and (b) and (5) of that section; and
 - (b) regulations made by virtue of subsection (7) of that section.
- (2) Where an appointed person makes a decision on a review, the decision is to be treated as that of the Welsh Ministers.
- (3) Except as provided by section 55, the validity of that decision is not to be questioned in any legal proceedings.
- (4) No application may be made to the High Court under section 55 on the ground that a decision on a review ought to have been made by the Welsh Ministers and not by an appointed person unless the person who made the application for the review challenges the appointed person’s power to make the decision before the decision is made.

Appointment of another person to make a decision on a review

- 3 (1) At any time before an appointed person has made a decision on a review under section 1AE the Welsh Ministers may—
 - (a) revoke the person’s appointment; and
 - (b) appoint another person under paragraph 1 to make the decision instead.
- (2) Where such a new appointment is made, the review, and any inquiry or other hearing in connection with the review, must be begun afresh.
- (3) Nothing in sub-paragraph (2) requires any person to be given an opportunity to make fresh representations or to modify or withdraw any representations already made.

Public local inquiries, hearings and written representations

- 4 (1) An appointed person may appoint an assessor to provide advice on—

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/05/2017. Mae'r fersiwn hon o'r hwn
(hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.
Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau
y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 20 Awst 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae
newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (a) any matters arising at a public local inquiry or hearing held by the appointed person in connection with a review under section 1AE or in consequence of such an inquiry or hearing; or
 - (b) any matters arising in written representations made to the appointed person in connection with such a review or in consequence of such representations.
- (2) Section 250(2) and (3) of the Local Government Act 1972 (local inquiries: evidence) applies to a public local inquiry held by an appointed person.

Directions

- 5
- (1) The Welsh Ministers may direct that anything that would fall to be done by an appointed person in connection with a review under section 1AE, other than the making of a decision on the review under subsection (3)(b) of that section, is to be done instead by the Welsh Ministers.
 - (2) A direction given under sub-paragraph (1) may be amended or withdrawn by a further direction.

Delegation

- 6
- (1) An appointed person may delegate to another person anything that would fall to be done by the appointed person in connection with a review under section 1AE, other than—
 - (a) the conduct of a public local inquiry or hearing; and
 - (b) the making of a decision on the review under subsection (3)(b) of that section.
 - (2) A delegation under sub-paragraph (1) is to be to the extent, and on the terms, that the appointed person determines and may be amended or revoked.

Supplementary provision

- 7
- Where an appointed person is a member of the staff of the Welsh Government, the functions of making a decision on a review and doing anything in connection with it conferred on the person by this Schedule are to be treated for the purposes of the Public Services (Ombudsman) Wales Act 2005 as functions of the Welsh Government.”

ATODLEN 2

(a gyflwynir gan adran 24)

ATODLENNI 1A AC 1B I'W MEWNOSOD YN NEDDF CYNLLUNIO
(ADEILADAU RHESTREDIG AC ARDALOEDD CADWRAETH) 1990

Gwybodaeth Cychwyn

I46 Atod. 2 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol at ddibenion penodedig, gweler [a. 41\(1\)\(e\)](#)

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/05/2017. Mae'r fersiwn hon o'r hwn
(hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau
y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 20 Awst 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae
newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

“SCHEDULE 1A

(introduced by section 2C)

LAPSE OF INTERIM PROTECTION

- 1 This Schedule applies where interim protection ceases to have effect in relation to a building as a result of the issue of a notice under section 2B(4)(b).
- 2 The fact that the interim protection has ceased to have effect does not affect the liability of any person to be prosecuted and punished for an offence under section 9, 43 or 44C committed with respect to the building while the interim protection had effect.
- 3 Any proceedings on or arising out of an application for listed building consent with respect to the building lapse; and any such consent granted while it had effect lapses.
- 4 (1) Any listed building enforcement notice served by the local planning authority with respect to the building ceases to have effect.
(2) Any proceedings on such a notice under sections 38 to 40 lapse.
(3) Notwithstanding sub-paragraph (1), section 42(1) and (2) continue to have effect as respects any expenses incurred by the local planning authority, owner or occupier as mentioned in that section and with respect to any sums paid on account of such expenses.
- 5 Any temporary stop notice served by the local planning authority with respect to the building ceases to have effect.

SCHEDULE 1B

(introduced by section 2D)

DECISIONS ON REVIEWS BY PERSON APPOINTED BY WELSH MINISTERS

1 Decisions on reviews by appointed persons

- (1) The Welsh Ministers may by regulations prescribe the classes of reviews under section 2D on which a decision is to be made by a person appointed by the Welsh Ministers for the purpose instead of by the Welsh Ministers.
- (2) Decisions on reviews of a prescribed class are to be made accordingly except in such classes of case as may for the time being be prescribed by the Welsh Ministers.
- (3) This paragraph does not affect any provision in this Act or any instrument made under it that an application for a review is to be made to the Welsh Ministers.
- (4) A person appointed under this paragraph is referred to in this Schedule as “an appointed person”.

2 Powers and duties of appointed person

- (1) An appointed person has the same powers and duties in relation to a review under section 2D as the Welsh Ministers have—
 - (a) under subsections (3)(a) and (b) and (5) of that section; and
 - (b) by virtue of section 322C and 323A of the Town and Country Planning Act 1990 (costs and procedural matters: Wales), as applied to this Act by section 89 of this Act.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/05/2017. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 20 Awst 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (2) Where an appointed person makes a decision on a review under section 2D, the decision is to be treated as that of the Welsh Ministers.
- (3) Except as provided by sections 62 and 63, the validity of the decision is not to be questioned in any legal proceedings.
- (4) No application may be made to the High Court under section 63 on the ground that the decision ought to have been made by the Welsh Ministers and not by an appointed person unless the person who made the application for the review challenges the appointed person's power to make the decision before the decision is made.
- (5) Where in any enactment (including this Act) there is a reference to the Welsh Ministers in a context relating or capable of relating—
 - (a) to a review under section 2D; or
 - (b) to anything done or authorised or required to be done by, to or before the Welsh Ministers in or in connection with any such review,then, so far as the context permits and subject to sub-paragraph (6), the reference is to be construed, in relation to a review on which a decision has been made or is to be made by an appointed person, as a reference to that person.
- (6) Sub-paragraph (5) does not permit references to the Welsh Ministers in section 2D(2)(c), (3)(c) or (6) to be construed as references to an appointed person.
- (7) Sub-paragraph (1) does not affect the generality of sub-paragraph (5).

3 Appointment of another person to make a decision on a review

- (1) At any time before an appointed person has made a decision on a review under section 2D the Welsh Ministers may—
 - (a) revoke the person's appointment; and
 - (b) appoint another person under paragraph 1 to make the decision instead.
- (2) Where such a new appointment is made, the review, and any inquiry or other hearing in connection with the review, must be begun afresh.
- (3) Nothing in sub-paragraph (2) requires any person to be given an opportunity to make fresh representations or to modify or withdraw any representations already made.

4 Local inquiries, hearings and written representations

- (1) An appointed person may appoint an assessor to provide advice on—
 - (a) any matters arising at a local inquiry or hearing held by the appointed person in connection with a review under section 2D or in consequence of such an inquiry or hearing; or
 - (b) any matters arising in written representations made to the appointed person in connection with such a review or in consequence of such representations.
- (2) Section 250(2) and (3) of the Local Government Act 1972 (local inquiries: evidence) applies to an inquiry held by an appointed person.

5 Directions

- (1) The Welsh Ministers may direct that anything that would fall to be done by an appointed person in connection with a review under section 2D, other than the making of a decision

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/05/2017. Mae'r fersiwn hon o'r hwn
(hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.
Newidiadau i ddeddfwriaeth: *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau*
y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 20 Awst 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae
newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

on the review under subsection (3)(b) of that section, is to be done instead by the Welsh Ministers.

- (2) A direction given under sub-paragraph (1) may be amended or withdrawn by a further direction.

6 Delegation

- (1) An appointed person may delegate to another person anything that would fall to be done by the appointed person in connection with a review under section 2D, other than—
- (a) the conduct of a local inquiry or hearing; and
 - (b) the making of a decision on the review under subsection (3)(b) of that section.
- (2) A delegation under sub-paragraph (1) is to be to the extent, and on the terms, that the appointed person determines and may be amended or revoked.

7 Supplementary provision

Where an appointed person is a member of the staff of the Welsh Government, the functions of making a decision on a review under section 2D and doing anything in connection with it conferred on the person by this Schedule are to be treated for the purposes of the Public Services (Ombudsman) Wales Act 2005 as functions of the Welsh Government.”

Statws

Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/05/2017. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.

Newidiadau i ddeddfwriaeth:

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 20 Awst 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.